

Cynllun Hawliau Plant 2021

Dy Farn Di

Dy Gyfreithiau Di

Dy Gymru Di



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Hawliau Plant
Cymru

Children's Rights
Wales



Y stori hyd yn hyn...

1989 – Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn gytundeb rhyngwladol sy'n amddiffyn hawliau plant o dan 18 oed.

1991 – Cytunodd y Deyrnas Unedig i sicrhau bod gan bob plentyn yn y DU yr holl hawliau a restrir yn y CCUHP.

2004 – Llywodraeth Cymru'n ei wneud yn rhan o'r holl gynllunio a llunio polisiau ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.

2009 – Cyhoeddodd y Cyn Brif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan, y byddai Cymru yn cyflwyno Mesur i osod gwerthoedd a Rheolau'r CCUHP yn y gyfraith.

2011 – Cymru yw'r lle cyntaf yn y DU a'r rhan fwyaf o Ewrop i roi'r CCUHP yn y Gyfraith.

2012 – Rhaid i bob Gweinidog sy'n gweithio yn Llywodraeth Cymru feddwl am y CCUHP a rhoi sylw iddo wrth wneud eu gwaith.

Heddiw – Rydym yn diweddarau ac yn datblygu Cynllun Hawliau Plant 2014 ac mae'r llyfryn hwn yn dweud popeth wrthot ti amdano.

Hawliau plant yng Nghymru

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn gytundeb rhyngwladol sy'n amddiffyn hawliau dynol plant o dan 18 oed.

Mae'n ddyletswydd ar Weinidogion Llywodraeth Cymru i roi sylw dyledus i Erthyglau CCUHP pan fyddant yn gwneud cyfreithiau a pholisïau newydd, neu eisiau eu newid. Mae'n ddyletswydd arnyn nhw i ystyried dy hawliau ac i ddarganfod sut y bydd yn effeithio arnot ti.



Beth yw Cyfreithiau?

Rhaid dilyn cyfreithiau.



Beth yw ystyr dyletswydd?

Mae hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid i Weinidogion ei wneud fel rhan o'u swydd.

Beth yw sylw dyledus?

Rhoi ystyriaeth gytbwys i faterion, gan gynnwys hawliau plant, wrth wneud penderfyniadau.

Beth yw'r Cynllun Hawliau Plant?

Mae'r Cynllun Hawliau Plant yn ddogfen gan Lywodraeth Cymru sy'n dangos sut maen nhw'n rhoi sylw dyledus i'r CCUHP.

DEALL DY HAWLIAU

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn gytundeb rhyngwladol sy'n amddiffyn hawliau dynol plant hyd at 18 oed. Dyma'r erthyglau:



**Comisiynydd
Plant Cymru**

**Children's
Commissioner
for Wales**

Am fwy o fanylion gan y Comisiynydd Plant:

https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/ccfw_rights_poster_wel.pdf

Erthygl 1

Mae gan bawb dan 18 oed yr hawliau yma.

Erthygl 2

Mae gan bob plentyn yr hawliau hyn waeth beth.

Erthygl 3

Dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant bob amser wneud yr hyn sydd orau i bob plentyn.

Erthygl 4

Dylai'r llywodraeth sicrhau bod yr holl hawliau yma ar gael i bob plentyn.

Erthygl 5

Dylai llywodraethau helpu rhieni i dy helpu di i wybod am dy hawliau a'u defnyddio wrth i ti dyfu.

Erthygl 6

Mae gen ti'r hawl i fywyd ac i dyfu i fod yn iach.

Erthygl 7

Dy hawl i enw a chenedligrwydd.

Erthygl 8

Dylai'r llywodraeth barchu dy hawl i enw, cenedligrwydd a theulu.

Erthygl 9

Dy hawl i fod gyda dy rieni os mai dyna sydd orau i ti.

Erthygl 10

Dy hawl i weld dy deulu os ydyn nhw'n byw mewn gwlad arall.

Erthygl 11

Dy hawl i beidio â chael dy gymryd o'r wlad yn anghyfreithlon.

Erthygl 12

Dy hawl i ddweud beth ddylai ddigwydd ac i rywun wrando arnot ti.

Erthygl 13

Dy hawl i gael gwybodaeth.

Erthygl 14

Dy hawl i ddilyn dy grefydd dy hun.

Erthygl 15

Dy hawl i gyfarfod â ffrindiau ac ymuno â grwpiau a chlybiau.

Erthygl 16

Dy hawl i breifatrwydd.

Erthygl 17

Dy hawl i wybodaeth onest yr wyt yn ei deall gan bapurau newydd a'r teledu.

DEALL DY HAWLIAU

Erthygl 18

Mae'r ddau riant yn rhannu'r cyfrifoldeb dros fagu eu plant, a dylent bob amser feddwl am yr hyn sydd orau ar gyfer bob plentyn.

Erthygl 19

Ni ddylet gael dy niweidio a dylet gael gofal a dy gadw'n ddiogel.

Erthygl 20

Dylet gael gofal iawn os nad wyt ti'n gallu byw â dy deulu dy hun.

Erthygl 21

Dy hawl i fyw yn y lle sydd orau i ti os nad wyt ti'n gallu byw gyda dy rieni.

Erthygl 22

Mae gan blant sy'n ffoaduriaid yr un hawliau â phlant a aned yng Nghymru.

Erthygl 23

Dy hawl i ofal a chymorth arbennig os wyt ti'n anabl er mwyn i ti fyw bywyd llawn ac annibynnol.

Erthygl 24

Dy hawl i fwyd a dŵr da ac i weld meddyg os wyt ti'n sâl.

Erthygl 25

Dylid mynd i weld plant nad ydynt yn byw gyda'u teuluoedd yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn iawn.

Erthygl 26

Dy hawl i arian ychwanegol os nad oes gan dy deulu ddigon o arian i fyw.

Erthygl 27

Dy hawl i safon byw dda.

Erthygl 28

Dy hawl i ddysgu a mynd i'r ysgol.

Erthygl 29

Dy hawl i fod y gorau y gallu di fod.

Erthygl 30

Dy hawl i ddefnyddio dy iaith dy hun.

Erthygl 31

Dy hawl i ymlacio a chwarae.

Erthygl 32

Dylet gael dy amddiffyn rhag gwaith sy'n beryglus.

Erthygl 33

Dylet gael dy ddiogelu rhag cyffuriau peryglus.

Erthygl 34

Dylai'r llywodraeth amddiffyn plant rhag cam-drin rhywiol.

Erthygl 35

Mae gen ti'r hawl i beidio â chael dy werthu.

Erthygl 36

Dylet gael dy amddiffyn rhag gwneud pethau a allai dy niweidio di.

Erthygl 37

Dy hawl i gael dy drin yn deg os wyt ti'n torri'r gyfraith.

Erthygl 38

Dylai plant gael eu hamddiffyn yn ystod rhyfel ac ni ddylid caniatáu iddynt ymladd yn y fyddin os ydyn nhw o dan 15 oed.

Erthygl 39

Dylai plant gael cymorth arbennig os ydynt wedi cael eu cam-drin.

Erthygl 40

Dy hawl i gymorth cyfreithiol os wyt ti wedi cael dy gyhuddo o dorri'r gyfraith.

Erthygl 41

Os yw cyfreithiau dy wlad yn dy warchod yn well na'r hawliau ar y rhestr hon, dylai'r cyfreithiau hynny aros.

Erthygl 42

Rhaid i'r llywodraeth roi gwybod i blant a theuluoedd am hawliau plant.

Erthyglau 43-54

Mae'r Erthyglau yn trafod sut dylai llywodraethau a sefydliadau weithio i sicrhau y caiff plant eu hamddiffyn yn eu hawliau.

Y Cynllun Hawliau Plant

Mae gan y Cynllun Hawliau Plant 5 adran:

1. Gosod hawliau plant wrth wraidd cynllunio;
2. Sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i gyrraedd eu potensial llawn;
3. Helpu plant i fod ar eu gorau ac i ddefnyddio'u hawliau;
4. Gwrando ar blant a rhoi sylw ystyrlon i'w barn;
5. Dylai Llywodraeth Cymru fod yn atebol i blant am benderfyniadau a chamau gweithredu sy'n effeithio ar eu bywydau.

Gallu di ddod o hyd i ragor o wybodaeth am hawliau plant yng Nghymru fan hyn:
<https://llyw.cymru/hawliau-plant>



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwneud yn siŵr bod staff Llywodraeth Cymru yn deall hawliau plant

Er mwyn helpu i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn ystyried hawliau plant, mae gennym y rolau allweddol canlynol yn y Llywodraeth:

- Gweinidogion y Llywodraeth. Mae Gweinidogion yn eistedd yn y Senedd ac yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar holl bobl Cymru, gan gynnwys plant.
- Swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae'r swyddogion hyn yn darparu gwybodaeth a chynghor i Weinidogion.
- Cyfarwyddwyr. Mae cyfarwyddwyr yn darparu cynghor a chefnogaeth barhaus i Weinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru.



Oeddet ti'n gwybod...

Rydym yn datblygu rhaglen hyfforddi gyda llawer o gyfleoedd i staff a Gweinidogion Llywodraeth Cymru wella eu dealltwriaeth o hawliau plant.

Hawliau Plant

Cymru

Children's Rights

Wales

Gwneud penderfyniadau sy'n ystyried hawliau plant

Er mwyn helpu Gweinidogion i wneud penderfyniadau da sy'n ystyried hawliau plant, bydd staff Llywodraeth Cymru yn:

- Ystyried CCUHP yn eu gwaith gan gynnwys deddfwriaeth a pholisïau.
- Defnyddio'r dystiolaeth ymchwil ddiweddaraf o Gymru, y DU ac ar draws y byd i ddeall beth sy'n helpu i wella hawliau plant.
- Gofyn barn arbenigwyr.
- Gwrando ar adborth gan blant a phobl ifanc.
- Defnyddio'r Asesiad Effaith ar Hawliau Plant.

Beth yw Asesiad Effaith Hawliau Plant (AEHP)?

- Nod AEHP yw cefnogi staff Llywodraeth Cymru i feddwl am hawliau plant.
- Pwrpas yr AEHP yw helpu staff Llywodraeth Cymru i ddarganfod sut y bydd eu gwaith yn effeithio ar blant.
- Bydd staff Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael i ddeall sut mae eu cynnig yn effeithio ar blant a phobl ifanc – ni fydd pob cynnig yn gwneud.

Dod â hawliau plant yn fyw!

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai plant ac oedolion wybod am CCUHP a'u hawliau.

Byddwn yn gweithio gyda phlant, rhieni / gofalwyr, Comisiynydd Plant Cymru a gweithwyr proffesiynol i hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc ac i rannu pwysigrwydd hawliau plant.

Ein nod yw defnyddio cyflwyno'r cwricwlwm newydd i siarad am hawliau. Mae hawliau dynol yn rhan o gwricwlwm newydd y Dyniaethau a byddwn yn gweithio gydag ysgolion i ddatblygu adnoddau i egluro pwysigrwydd hawliau.



Cynnwys plant a phobl ifanc

Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod penderfyniadau, polisiau a sut maen nhw'n cyfathrebu, yn cael eu gwella'n fawr trwy wrando ar farn plant a phobl ifanc.

Er mwyn sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed, byddwn yn datblygu strategaeth gyfranogi tymor hir i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd ystyrlon i ddweud eu barn wrth weinidogion.

Pan fydd polisiau'n effeithio ar blant a phobl ifanc, anogir staff Llywodraeth Cymru i gynhyrchu fersiynau sy'n addas i blant.



Ydyn ni'n gwneud pethau'n iawn?

Er mwyn helpu plant ac oedolion i ddangos sut mae Llywodraeth Cymru yn ystyried hawliau plant wrth wneud penderfyniadau, bydd Gweinidogion yn cyhoeddi adroddiad bob 2.5 mlynedd yn nodi sut y maent wedi cefnogi hawliau plant.

Os wyt ti'n teimlo nad yw Gweinidogion wedi ystyried hawliau plant wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eich bywydau, yn unigol neu fel rhan o grŵp, gallu di:

- Gysylltu â Llywodraeth Cymru i godi eu hymwybyddiaeth o'r mater.
- Cwyno i Lywodraeth Cymru a byddwn yn ceisio datrys pethau cyn gynted â phosibl.
<https://llyw.cymru/cwyn-am-lywodraeth-cymru>

Pwy all dy helpu di i gwyno?

Gall Comisiynydd Plant Cymru dy gynorthwyo i herio Gweinidogion.

www.complantcymru.org.uk/cysyllta/

MEIC - Dyma'r llinell gymorth Eiriolaeth a Chyngor i blant a phobl ifanc yng Nghymru ac mae ar gael i gynghori a darparu gwybodaeth i blant a phobl ifanc sy'n dymuno herio Gweinidogion.

www.meiccymru.org/cym



Ry'n ni eisiau gwybod dy farn di

Cwestiynau 1 – 3

Cwestiwn 1

Mae'r Cynllun Hawliau Plant yn amlinellu cynlluniau Gweinidogion Cymru i gefnogi hawliau plant.

Oes gen ti unrhyw farn ar y cynllun?

Cwestiwn 2

Beth arall ddylai fod yn y Cynllun?

Cwestiwn 3

Sut allu di chwarae mwy o ran wrth ddylanwadu ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru?

Cwestiynau 4 - 6

Cwestiwn 4

Sut gall Gweinidogion Cymru sicrhau bod pawb yn gwybod am hawliau plant ac yn eu cefnogi?

Cwestiwn 5

Sut hoffet ti roi adborth i Lywodraeth Cymru?

Cwestiwn 6

Sut allwn ni sicrhau bod Cymraeg a Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal?

Diolch

Diolch am ddarllen y llyfryn hwn.

Ymgynghoriad ysgrifenedig ac electronig yw hwn.

Mae croeso i ti ddewis sut wyt ti'n ymateb, gallu di:

- lenwi'r ffurflen ar-lein;
- anfon e-bost at hawliauplant@llyw.cymru
- lawrlwytho'r ffurflen a'i chwblhau â llaw a'i phostio at:

Y Gangen Blant

Is-Adran Plant a Theuluoedd

Yr Adran Cymunedau a Threchu Tlodi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ



Gellir gwneud ymatebion i ymgynghoriadau yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gen ti i dy ymateb aros yn ddienw, ticia yma:

I gael mwy o wybodaeth am hawliau Plant:

<https://llyw.cymru/hawliau-plant>